Y DITECTIF CARDIAU POST

Duncan Brown

Ydych chi wedi anfon cerdyn post ar eich gwyliau erioed?
Ydych chi wedi derbyn cerdyn post gan rywun arall ar wyliau?

Mae cardiau post yn dweud llawer wrthym am bobl ac am y lleoedd y maen nhw'n ymweld â hwy ac mae hen gardiau post yn dweud llawer am fyd a chyfnod sydd efallai wedi hen fynd yn angof.

Dyma hen gerdyn post a brynais mewn ffair yn ddiweddar wedi ei anfon o le yr wyf yn ei adnabod yn dda iawn, sef dyffryn Abergwyngregyn rhwng Bangor a Llanfairfechan.
Bu dyffryn Aber a'i raeadr fawr yn boblogaidd gydag ymwelwyr ers o leiaf ganrif a hanner a daeth y cerdyn i mi fel un sbesial o'r gorffennol. Dyma'r cerdyn (y ddwy ochr) a map i ddangos dyffryn Aber.



Sior V sydd ar y stamp, brenin a deyrnasodd rhwng 1910 a 1936.

Mae'r marc post yn awgrymu i'r cerdyn gael ei bostio
(ac felly mae'n debyg, ei ysgrifennu)
ym mis Ebrill (**APR**il) yn y flwyddyn 1912.

Beth mae'r cerdyn hwn yn ei ddweud wrthym am UN ymwelydd dros y cyfnod?

Lunch time

We are sitting up by
the falls - it looks lovely.
We expect to meet Arthur
on the way back - I shall
be very busy all the way
back as I have seen
several blossom trees and the
girls think I shall have to climb
them - I am missing you dear.
love Jess

Person o'r enw Jess a ysgrifennodd y cerdyn amser cinio ar ddiwrnod braf wrth Raeadr Fawr Aber
[pwynt A ar y map.]

Mae'n siwr mai Aber Falls oedd ei enw iddi hi, fel ar y cerdyn.

Faint o Gymry sydd yn dal i ddefnyddio'r Saesneg yn hytach na'r Gymraeg am leoedd fel hyn?

PAM?

Mae hi'n dweud ei bod hi am gyfarfod Arthur ar ei ffordd i lawr.
Tybed sut oedd hi ac Arthur wedi cyrraedd Abergwyngregyn a'r Rhaeadr Fawr?

Ar y rheilffordd dybiwn i y daethant i Aber [pwynt B ar y map,] a gyda cheffyl a thrap beth o'r ffordd i fyny oddi yno.



Dyma gerdyn arall o'r un cyfnod yn dangos ceffylau a cherbydau ger y Bontnewydd, Aber, hanner ffordd rhwng y stesion a'r rhaeadr
[pwynt C ar y map.]

Os ydych chi am weld sut mae'r llecyn arbennig hwn wedi newid, ac os ydych chi'n byw neu'n aros yn yr ardal, ewch am dro i edrych arno heddiw. Gwnewch restr o'r newidiadau mân a mawr.

Yn ôl ei stori ar y cerdyn roedd Jess wedi gweld blodau ar y coed ar ei ffordd i fyny ac roedd hi'n bwriadu eu casglu nhw ar ei ffordd i lawr. Roedd ei chymdeithion yn meddwl y byddai'n rhaid iddi ddringo'r coed i gael beth roedd hi eisiau.

Pa goed fyddai angen eu dringo er mwyn casglu blodau a (dyma'r cwestiwn mawr!) blodau pa goed fyddai i'w gweld yn nyffryn Aber ym mis Ebrill?

Dyma'r coed posibl a thua pryd y byddent yn debygol o fod wedi blodeuo ym 1912 (ar gyfartaledd ystadegol:)

Llwyn drain duon	**10 Ebrill**
Pren afalau surion bach	**3 Mai**
Ceiriosen	**10 Ebrill**
Llwyn drain gwynion	**10 Mai**
Ysgaw	**27 Mai**

Am fwy o wybodaeth ystadegol am hinsawdd y cyfnod, ynghyd â chymariaethau â heddiw, gweler yr Atodiad Data.

Gwaith trafod

* Beth am Jess ei hun?

* Pwy oedd ei chymdeithion, y merched?

* Pwy oedd Arthur?

* Beth tybed oedd hi'n mynd i'w wneud â'r blodau?

* A oedd Jess ar ei gwyliau?

* Os na, pam aeth hi yno?

* Pam ysgrifennu cerdyn i rywun yn Llandudno, sydd mor agos i Aber?

Gwaith ymchwil

* Beth oedd yn digwydd yng Nghymru, Prydain Fawr a'r byd yn 1912?

* Am beth fyddai pobl yn poeni?

* Pwy oedd y Prif Weinidog ar y pryd?

* Sut ddillad fyddai Jess yn eu gwisgo?

* Credai pobl weithiau fod dod â rhai mathau o flodau i'r ty yn dod ag anlwc.

Holwch am yr hen ofergoelion hyn.

Gallwch holi'r wefan ganlynol neu rai perthnasol eraill:
www.bbc.co.uk/history/bytime/wales/20th-century-wales.shtml

neu unrhyw lyfr neu wyddoniadur addas.

Atebion os gwelwch yn dda ar gerdyn post diddorol o'ch hardal chi at: Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd. neu drwy ebost.

COFIWCH BOD EIN HANES I'W GANFOD YN Y PETHAU BACH YN OGYSTAL Â'R PETHAU MAWR - POB HWYL AR Y GWAITH DITECTIF.

ATODIAD DATA

Casglodd y Dr. Tim Sparks a thîm astudio Newid Hinsawdd y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg yn Swydd Huntingdon fanylion am gyfnodau blodeuo coed dros nifer o flynyddoedd.

Y mae'r tabl isod yn dangos data cyfartaledd dyddiadau blodeuo'r 17 mlynedd o bobtu 1912 ynghyd â data ein cyfnod ni fel cymhariaeth (cofnodion Swydd Gaerwrangon.)

	Drain duon	**Ceirios**	**Afalau surion bach**	**Drain gwynion**	**Ysgaw**
Blodeuo yng nghyfnod 1912	10 Ebrill	10 Ebrill	3 Mai	10 Mai	27 Mai
Blodeuo 1999-2001	18 Mawrth	Dim data	Dim data	1 Mai	11 Mai

Yn ôl ei gofnodion, ymddengys fod Gwanwyn 1912 yn Lloegr yn gynhesach nag arfer a gellid disgwyl y byddai blodau wedi agor 7 – 8 niwrnod ynghynt na'r arfer ar y pryd. Ar y llaw arall, byddent fymryn yn hwyrach yn Abergwyngregyn nag yn Swydd Gaerwrangon.

Cewch wybodaeth bellach ar wefan y Ganolfan dan yr enw Centre for Ecology and Hydrology.